# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 2

MANNAU NAD YDYNT AT DDIBENION GWAREDU

### 56 Dyletswyddau gweithredwr mewn perthynas â man nad yw at ddibenion gwaredu

(1) Pan fo—

(a) hysbysiad mewn grym sy'n dynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yn fan nad yw at ddibenion gwaredu, a

(b) deunydd ar y safle sydd o ddisgrifiad a bennir yn yr hysbysiad fel deunydd y mae'n rhaid ei ddodi, neu na chaniateir ei ddodi, yn y man hwnnw,

rhaid i weithredwr y safle sicrhau yr ymdrinnir â'r deunydd yn unol â darpariaethau'r hysbysiad.

(2) Mae is-adran (1) yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â deunydd os gwneir gwarediad trethadwy o'r deunydd y tu allan i'r man nad yw at ddibenion gwaredu.

(3) Nid yw is-adran (1) yn gymwys mewn perthynas â deunydd—

(a) os yw gwarediad trethadwy o'r deunydd i'w wneud yn union ar ôl iddo gael ei gynhyrchu ar y safle tirlenwi awdurdodedig neu ei gludo iddo, neu

(b) os yw'r deunydd ar ei hynt rhwng lleoedd y tu allan i'r safle ac yn mynd i gael ei symud o'r safle ar unwaith.

(4) Nid yw'r is-adran honno yn gymwys ychwaith—

(a) os yw ACC yn cytuno mewn achos penodol y caniateir ymdrin â deunydd mewn modd nad yw'n unol â darpariaethau'r hysbysiad sy'n dynodi'r man nad yw at ddibenion gwaredu, a

(b) os ymdrinnir â'r deunydd yn unol â'r cytundeb.

(5) Mewn perthynas â chytundeb a roddir gan ACC o dan is-adran (4)(a)—

(a) caiff fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau;

(b) caiff ddarparu bod unrhyw beth a wneir mewn perthynas â deunydd a nodir yn y cytundeb i'w drin fel pe bai wedi ei wneud mewn perthynas â deunydd arall o'r un disgrifiad ar y safle tirlenwi awdurdodedig;

(c) caiff ymwneud â phethau a wnaed cyn rhoi'r cytundeb os yw ACC wedi ei fodloni na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i weithredwr y safle sicrhau ei gytundeb cyn i'r pethau hynny gael eu gwneud.

(6) Gweler adran 8(3)(g) am ddarpariaeth sy'n trin gwarediad trethadwy fel pe bai wedi ei wneud os cedwir deunydd mewn man nad yw at ddibenion gwaredu y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod hwyaf a bennir yn yr hysbysiad sy'n dynodi'r man, oni bai yr ymdrinnir â'r deunydd yn unol â chytundeb o dan is-adran (4)(a).

(7) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn gwneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch amgylchiadau pan na fo is-adran (1) yn gymwys (neu pan fo'n peidio â bod yn gymwys).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 56 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 56.